Cofnodion Cyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 22 Mai 2017 am 7:00p.m.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Jim Bryan (Maer), Ian Lewney (Dirprwy Faer). Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Stephen Beach, Gavin Harris, Ken Hawkins, Rosie Hughes, Menna Jones, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Dave Snape, Geraint Woolford, Ifan Wyn ac Emrys Wynne.

13. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Heather Williams.

14. MR MURRAY BRAGG

Cyfeiriodd y Maer at farwolaeth Mr Murray Bragg, cyn Gynghorydd, Maer y Dref a Chlerc Cyngor Tref Rhuthun a gofynnodd i'r aelodau sefyll am funud o dawelwch. Estynnodd wahoddiad i'r Cynghorydd Emrys Wynne ddweud ychydig eiriau. Dywedodd fod marwolaeth Mr Bragg wedi bod yn sioc i bawb. Bu'n gyn Gynghorydd diwyd iawn a gwasanaethodd fel Maer y Dref am ddwy flynedd yn olynol, o 1989 i 1999, ac roedd wedi gwneud cyfraniad aruthrol yn sefydlu Cymdeithas Efeillio Rhuthun, a oedd wedi arwain at yr Ŵyl Efeillio sy'n cael ei hadnabod fel Gŵyl Rhuthun yn awr. Daeth yn Glerc y Dref ar ôl i Vernon Hughes ymddiswyddo o'r rôl, gan wasanaethu o 1998 tan 2004. Mynegodd gydymdeimlad diffuant at ei deulu.

15. DATGAN BUDDIANNAU

Cafwyd datganiadau o fuddiant ynghylch eitem 16 – Ceisiadau am Gymorth Ariannol:
Eitem 16iii Pwyllgor Gŵyl Rhuthun – y Cynghorwyr Jim Bryan, Rosie Hughes ac Ifan Wyn
Eitem 16iv Menter Iaith Sir Ddinbych – y Cynghorydd Emrys Wynne
Eitem 16v Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch – y Cynghorwyr Menna Jones ac Anne Roberts.

16. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer ei fod wedi bod yn y digwyddiadau isod.

28.04 Noson elusennol y Maer yn Lifestyle Garment Spa
02.05 Pwyllgor Gŵyl Rhuthun
08.05 Cyflwyno'r diffibrilydd cyhoeddus i'r Cyngor Tref
11.05 Cyfarfod Pwyllgor y Gymdeithas Efeillio
15.05 Pwyllgor Gŵyl Rhuthun
17.05 Cyfarfod Blynyddol Sgowtiaid Dyffryn Clwyd
19.05 Cyflwyno siec i Dŷ Gobaith yn Eglwys Sant Pedr yn dilyn y rasys crempog.

17. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Ian Lewney	Cyfarfod Tîm y Dref
Cyng. Stephen Beach	Digwyddiad codi arian Castell Rhuthun ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Gadwraeth, Fforwm dros 50 oed, cyfarfod Llywodraethwyr Ysgol Stryd y Rhos ac agoriad swyddogol y Gallery
Cyng. Rosie Hughes	Agoriad swyddogol y Gallery
Cyng. Robert Owen-Ellis	Banc bwyd x 4, cyfarfod Pwyllgor Iechyd a Diogelwch Ysgol Pen Barras, Cynhadledd Llywodraethwyr, cyfarfod Llywodraethwyr Ysgol Pen Barras a chyfarfod gyda Menter Iaith Sir Ddinbych
Cyng. Menna Jones	Banc bwyd a noson elusennol y Maer yn Lifestyle Garment Spa
Cyng. Anne Roberts	Noson elusennol y Maer yn Lifestyle Garment Spa, digwyddiad codi arian Castell Rhuthun ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Gadwraeth, Fforwm dros 50 oed, cyfarfod Ymlaen Rhuthun, agoriad swyddogol y Gallery, cyfarfod gyda'r Cynghorydd Heather Williams ynghylch statws Croesawu Bysiau Moethus, cyfarfod Tîm y Dref, cyfarfod Drysau Agored a chyfarfod Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch

Cyng. Geraint Woolford	Noson elusennol y Maer yn Lifestyle Garment Spa
Cyng. Emrys Wynne	Noson elusennol y Maer yn Lifestyle Garment Spa a chyflwyno'r diffibrilydd cyhoeddus i'r Cyngor Tref

18. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mai 2017 yn gywir.*

19. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

20. Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Cyflwynodd Gadeirydd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mai 2017.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod.*

21. Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Cyflwynodd Gadeirydd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mai 2017.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod.*

22. GORCHYMYN BANC – BANC BARCLAYS

Gofynnwyd i'r aelodau gadarnhau ychwanegu llofnodwr newydd, y Dirprwy Faer, ar y gorchymyn banc a newid y trefniadau llofnodi i ddau o'r tri llofnodwr.

PENDERFYNWYD*: cadarnhau ychwanegu'r Cynghorydd Ian Lewney fel llofnodwr ar orchymyn banc Cyngor Tref Rhuthun.*

23. AELODAU CYNGOR TREF RHUTHUN

Gofynnwys i'r aelodau gadarnhau bod y manylion ar y daflen binc yn gywir.

PENDERFYNWYD*: bod y Clerc yn gwneud y cywiriadau angenrheidiol ac yn dosbarthu'r wybodaeth wedi'i diweddaru yn y cyfarfod nesaf.*

24. AELODAETH PWYLLGORAU 2017/18

Gofynnwyd i'r aelodau nodi eu dewis o ran bod yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu neu'r Pwyllgor Amwynderau ac i wirfoddoli eu henwau ar gyfer yr is-bwyllgorau. Awgrymwyd bod aelodau presennol Grŵp Penodi Clerc y Dref yn aelodau'r Is-bwyllgor Staffio, gyda'r holl aelodau eraill ar y Pwyllgor Apêl.

PENDERFYNWYD*: diweddaru manylion aelodaeth y Pwyllgorau a'r Is-bwyllgorau fel a ganlyn: Pwyllgor Amwynderau – Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Gavin Harris, Menna Jones, Anne Roberts, Dave Snape ac Emrys Wynne. Y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu – Y Cynghorwyr Stephen Beach, Ken Hawkins, Rosie Hughes, Robert Owen-Ellis, Heather Williams, Geraint Woolford ac Ifan Wyn. Is-bwyllgor Cymorth Ariannol: Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Gavin Harris, Menna Jones a Geraint Woolford. Is-bwyllgor Cynllun Iaith Gymraeg: Y Cynghorwyr Stephen Beach, Robert Owen-Ellis, Ifan Wyn ac Emrys Wynne. Yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol: Y Cynghorwyr Rosie Hughes, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts a Dave Snape. Grŵp Archwilio Dogfennau: Y Cynghorwyr Ken Hawkins, Rosie Hughes a Robert Owen-Ellis. Mae'r Maer a'r Dirprwy Faer yn aelodau o'r holl bwyllgorau ac is-bwyllgorau uchod yn rhinwedd eu swydd.*

Is-bwyllgor Staffio: Y Maer a'r Cynghorwyr Stephen Beach, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Geraint Woolford ac Emrys Wynne. Is-bwyllgor Apêl: Y Dirprwy Faer a'r Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Gavin Harris, Ken Hawkins, Rosie Hughes, Menna Jones, Dave Snape, Heather Williams ac Ifan Wyn.

25. CYNRYCHIOLAETH Y CYNGOR TREF AR GYRFF ALLANOL 2017/18

Ystyriodd yr aelodau gynrychiolaeth aelodau ar gyrff allanol.

PENDERFYNWYD*: diweddaru'r rhestr a dosbarthu'r manylion yn y cyfarfod nesaf.*

26. ADNEWYDDU AELODAETH – CYNGOR GWASANAETHAU GWIRFODDOL SIR DDINBYCH

Ystyriodd yr aelodau adnewyddu aelodaeth CGGSDd ar gost o £30.00 dan y strwythur ffioedd aelodaeth newydd.

***PENDERFYNWYD**: adnewyddu aelodaeth Cyngor Tref Rhuthun gyda CGGSDd.*

27. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL

Bu'r aelodau'n ystyried ceisiadau am gymorth ariannol gan y mudiadau isod:

i. Cymdeithas Sioe Rhuthun – cais am £500.00
ii. Clwb Gymnasteg Rhuthun a Dinbych – cais am gyfraniad tuag at fatiau glanio'n ddiogel
iii. Pwyllgor Gŵyl Rhuthun – cais am gymorth ariannol
iv. Menter Iaith Sir Ddinbych – cais am £1,200.00
v. Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch – Drysau Agored – cais am £1,500.00

***PENDERFYNWYD**: fel a ganlyn:*

i. Cymdeithas Sioe Rhuthun – cymeradwyo'r cais am £500.00
ii. Clwb Gymnasteg Rhuthun a Dinbych – gofyn am ragor o wybodaeth ynghylch nifer yr aelodau anabl o Rhuthun a fyddai'n elwa o'r cyllid tuag at y matiau, a lleoliad y ganolfan gymnasteg newydd.
iii. Pwyllgor Gŵyl Rhuthun – darparu £1,000.00 o gymorth ariannol
iv. Menter Iaith Sir Ddinbych – rhoi £1,000.00 i'r mudiad
v. Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch – cymeradwyo'r cais am £1,500.00 tuag at gynnal y digwyddiad Drysau Agored yn Rhuthun ym mis Medi 2017.

28. STATWS CROESAWU BYSIAU MOETHUS – LLYTHYR ARFAETHEDIG I FUSNESAU

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried llythyr arfaethedig i fusnesau i annog busnesau i gymryd rhan yn yr ymgyrch i Rhuthun fod y gyrchfan gyntaf yn Sir Ddinbych i ennill Statws Croesawu Bysiau Moethus.

***PENDERFYNWYD:** derbyn y llythyr a'i ddosbarthu i fusnesau yn Rhuthun.*

29. BATHODYNNAU ADNABOD I'R CYNGHORWYR

Gofynnwyd i'r aelodau a oeddynt o blaid yr awgrym o gael bathodynnau adnabod gyda rhuban ar gyfer aelodau Cyngor Tref Rhuthun.

***PENDERFYNWYD**: bod yr aelodau o blaid hyn ac i'r Clerc gael rhagor o wybodaeth am y costau.*

30. DIGWYDDIAD AR Y CYD UN LLAIS CYMRU / SLCC– EWLOE, SIR Y FFLINT, 12.07.17

Hysbyswyd yr aelodau am y digwyddiad ar y cyd i'w gynnal yn Ewloe, Sir y Fflint.

***PENDERFYNWYD**: bod y Maer a'r Clerc yn mynd i'r digwyddiad ar gost o £69.00 + TAW yr un.*

31. GOHEBIAETH

Gofynnwyd i'r aelodau nodi'r eitemau gohebiaeth a ganlyn:

i. Cod Ymarfer Materion y Gweithlu (Cod Dwy Haen) – Ffurflen Fonitro Flynyddol
ii. Marie Curie, Te Parti Mawr, 23-25 Mehefin
iii. Cynhadledd Cynghorau Mwy ac Arferion Arloesol Un Llais Cymru – 5 Gorffennaf 2017 - Haf a Hendre, Maes y Sioe Frenhinol, Llanelwedd
iv. Bancwyr Cymunedol NatWest
v. Gwahoddiad i gyfarfod cyhoeddus i wahodd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i Sir Ddinbych yn 2020, Neuadd y Dref, Dinbych, 14 Mehefin 2017 am 7pm

***PENDERFYNWYD:** nodi'r ohebiaeth a bod y Maer a'r Dirprwy Faer yn cynrychioli'r Cyngor Tref yn y cyfarfod cyhoeddus i wahodd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i Sir Ddinbych.*

32. ADRODDIAD ARCHWILIAD MEWNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2016

Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn yr adroddiad archwiliad mewnol gan JDH Business Solutions. Tynnodd y Clerc sylw'r aelodau at y tri argymhelliad a wnaed.

PENDERFYNWYD: *derbyn yr adroddiad a gweithredu'r argymhellion.*

33. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Ebrill 2017.

PENDERFYNWYD*: derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Ebrill 2017.*

34. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD*: cymeradwyo talu'r cyfrifon a ganlyn.*

5032	Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth	Adnewyddu'r cofrestriad diogelu data		£35.00
5033	Eglwys Sant Pedr – cronfa adfer y clychau	Achos da a ddewisiwyd gan Ddinesydd Da'r Flwyddyn		£100.00
5034	J & C Brimble	Dyfrio'r basgedi crog ac Basket watering and algaladdwr wrth gofeb Tom Pryce		£140.00
5035	Llanfwrog CIC	Torri glaswellt x 3 Mai 2017 a chael gwared ar goeden wedi syrthio		£633.00
5036	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac Yswiriant Gwladol		£274.90
5037	Reebee's Florist	Dau dusw o flodau ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol		£40.00
5038	Scottish Power	Trydan ar gyfer y goleuadau ar y coed Nadolig		£89.46
D.D.	BT Business	Gwasanaethau band eang	*	£82.92
5039	Fineline	500 copi o bapur llythyrau CTRh	*	£138.78
5040	Glasdon UK Limited	Sedd Stanford	*	£1,073.85
5041	Humphreys Signs & Print	Arwydd diffibrilydd	*	£30.00
5042	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd yn y Cyfarfod Blynyddol a chyfarfod cyffredin 22 Mai	*	£180.00
5043	Cynghorydd Jim Bryan	Lwfans y Maer – rhandaliad cyntaf		£600.00
5044	Don Jackson-Wyatt	Tynnu lluniau yn y Cyfarfod Blynyddol		£100.00

35. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau dyddiad y cyfarfod nesaf fel nos Lun,* ***19 Mehefin 2017*** *am 7.00pm.*